

CALON DDIOGEL

Ychydig flynyddoedd yn ôl, cydnabu Cyngor Tref Tredegar ymdrechion Mike Morgan yn codi arian i brynu a gosod dau ddiffibriliwr calon yng nghanol y dref. Y llynedd, bu'r Cyngor yn cydnabod ymdrechion Cassie ac Amy, a achubodd fywyd un o drigolion y dref yng Nghanolfan Chwaraeon Tredegar drwy ddefnyddio eu diffibriliwr. Daethant i sylweddoli y byddai cael rhwydwaith o ddiffibrilwyr yn y dref yn golygu fod achub bywyd yn rhywbeth a allai ddigwydd ac y byddai Tredegar yn lle mwy diogel i fyw ynddo ac ymweld ag ef.

Cadwodd Cyngor Tref Tredegar a Mike Morgan mewn cysylltiad a thrwy weithio gyda'i gilydd, maent bellach wedi gwireddu breuddwyd o osod chwe diffibriliwr arall yn y dref.

Mae Cyngor Tref Tredegar wedi prynu diffibriliwr i bob un o ysgolion y dref. Er eu bod yno'n bennaf er mwyn diogelwch ein pobl ifanc, mae'r ffaith eu bod wedi'u lleoli ar draws y gymuned yn golygu y bydd yn lle mwy diogel i ni i gyd. Cafodd y staff ym mhob ysgol hyfforddiant ar eu defnyddio a chofrestrwyd yr offer gydag Ymatebwyr Cyntaf Ambiwllans Sant Ioan a fydd yn gallu defnyddio'r diffibrilwyr pan gânt eu galw allan.

Meddai'r Cyngorydd Tom Smith, Arweinydd Cyngor Tref Tredegar, 'Rydym yn sylweddoli fod cael gafael ar ddiffibriliwr yn gyflym yn gwneud gwahaniaeth enfawr wrth achub bywyd. Drwy brynu'r diffibrilwyr hyn bydd rhieni'n gwybod bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Rydym eisiau tynnu sylw at leoliad yr offer fel bod y gymuned gyfan yn gwybod ble i fynd os oes angen un, ac yn bwysicaf, bydd gan Ymatebwyr Cyntaf Ambiwllans Sant Ioan fynediad at y dyfeisiau hyn sy'n achub bywydau.'

Diolchodd Mr Martin Price, Pennaeth Ysgol Gynradd Bryn Bach, i'r Cyngor am yr offer ac ychwanegodd, 'rydym yn gwybod bellach y bydd ein plant yn ddiogel yn yr ysgol ac y bydd ein cymuned gyfan yn lle mwy diogel hefyd.'

Dyweddodd Mr Robbins a oedd yn derbyn yr offer ar ran Ysgol Gyfun Tredegar, 'Mae gennym ni un yn yr ysgol ond mae hyn yn golygu y gallwn fynd ag un gyda ni i ddigwyddiadau chwaraeon er mwyn sicrhau fod ein disgyblion yn ddiogel bob amser.'

Diwedd

Rhagor o wybodaeth gan Clare Price 01495 722352 tredegartc@tconnect.com

Mae'r lluniau'n dangos Maer Tredegar, y Cynghorydd Jacqueline Thomas yn cyflwyno'r diffibrilwyr i gynrychiolwyr o ysgolion Tredegar.